Llywodraeth Cynulliad Cymru
Proffil Effeithiolrwydd Ysgolion

Rhagarweiniad

Mae'r Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion (FfEY) yn nodi gweledigaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru (LlCC) ar gyfer gwella canlyniadau dysgu a lles plant a phobl ifanc Cymru.
Mae prif syniadau'r FfEY i'w gweld yn y diagram isod. Mae'n cynnwys pump "thema" yn y cylch allanol, chwe "elfen" yn segmentau'r cylch, y mae pob un wedi'i rannu ymhellach yn dair o bedair "agwedd".

Arweiniad Proffil Effeithiolrwydd Ysgolion (PEY)

Mae'r arweiniad wedi'i lunio i gefnogi ysgolion wrth nodi eu cynnydd yn y FfEY a nodi gwaith datblygu i'w gyflawni yn ystod cyfnod peilot rhoi ar waith.

Mae'r arweiniad yn cymryd pob elfen o'r FfEY ac yn darparu nifer bach o ddatganiadau lefel uwch mewn perthynas â phob un o'r agweddau yn yr elfennau. Y bwriad yw disgrifio 'Sut siâp sydd ar' bob agwedd mewn ysgol.
Mae'r datganiadau hyn wedi'u gosod ar gontinwwm o 'disgwyliedig' i 'trawsnewid'.



Mae'r continwwm yn disgrifio taith gwella ysgolion a'r camau efallai bydd ysgolion yn eu cymryd wrth iddynt geisio cyflawni'r canlyniadau uchaf posib i'r holl ddysgwyr: Yn fras, diffiniadau pob cam yw:

Disgwyliedig	Datblygu	Dwysáu	Trawsnewid
Mae elfennau ac agweddau'r Fframwaith yn eu lle i'r graddau y mae disgwyl rhesymol i bob ysgol eu cael.	Mae naws glir o gryfderau a meysydd i'w datblygu yn elfennau ac agweddau'r fframwaith. Mae strategaethau er mwyn datblygu cryfderau a mynd i'r afael â datblygu yn eu lle. Mae effaith yn amlwg mewn rhai meysydd yr ysgol.	Mae arweinyddiaeth ddosbarthol ynghyd â diwylliant dysgu cryf yn cael effaith ar ganlyniadau dysgwyr yn ogystal ag ar draws yr ysgol.	Caiff arferion effeithiolrwydd ysgolion eu gwreiddio'n ddwfn a'u cynnal. Maent yn cael eu hadolygu a'u gwerthuso am eu heffaith ar ganlyniadau ar gyfer dysgu a lles. Mae'r gwerthusiadau hyn yn rhoi cyfeiriad i waith cynllunio yn y dyfodol. Maent yn cynnwys amrywiaeth eang o bartneriaid. Mae'r ysgol yn rhannu arfer ag eraill yn rheolaidd.

Defnyddio arweiniad PEY mewn ysgolion

Mae disgwyl y bydd ysgolion yn canolbwyntio ar y FfEY drwy'r PEY. Y bwriad yw galluogi ysgolion i sefydlu man cychwyn sy'n nodi cryfderau ysgol (efallai yr hoffai rannu ag eraill) yn ogystal â'r meysydd i'w datblygu ymhellach (efallai yr hoffai ddysgu amdanynt gan eraill). Mae'r PEY yn sefydlu iaith gyffredin ar gyfer trafodaethau mewn ysgolion ac ar eu traws ac yn gosod disgwyliadau a dyheadau ar gyfer effeithiolrwydd mewn ysgolion.

Mae'r PEY yn canolbwyntio ar nifer cymharol fach o ddatganiadau lefel uwch. Mae disgwyl y bydd yr arweiniad hwn yn galluogi ysgolion i weld eu hunain yn erbyn egwyddorion drosgynnol y FfEY. Bydd ysgolion eisoes yn defnyddio deunyddiau hunanwerthuso o ffynonellau gwahanol. Yn amlwg, er mwyn ennill mewnwelediad manwl o sefyllfa'r ysgol o ran elfennau ac agweddau'r FfEY, bydd ysgolion yn parhau i ddefnyddio'r deunyddiau hunanwerthuso hyn sy'n bodoli eisoes.

Yn ogystal, mae'r PEY yn arddangos sut gall cadarnhau sefyllfa'r ysgol o ran y FfEY gyfrannu at hunanwerthuso'r ysgol ar gyfer arolwg Estyn. Mae gan bob agwedd ddolenni penodol i'r Fframwaith Arolygu Cyffredin.

Datblygiadau yn y Dyfodol

Lluniwyd y FfEY ar ôl ymgynghori'n helaeth â rhanddeiliaid a'r bwriad yw alinio mentrau cyfredol a mentrau'r dyfodol a dulliau ariannu ar gyfer y FfEY.

Hefyd, bydd y PEY yn chwarae rôl allweddol mewn trafodaethau y bydd ysgolion yn eu cael gydag aelodau cysylltiol a gweithiwyr proffesiynol gwella ysgolion yn ystod y peilot sydd ar ddod.

Mae'r arweiniad ar ffurf 'drafft' a gofynnir am adborth yn barhaus i wella a mireinio'r PEY. Y bwriad, yn arbennig, yw darparu mathau tebyg o ddatganiadau o ran y pump "thema". Rhestrir y themâu yng nghylch allanol diagram y FfEY ac mae'n cynnwys 'dwyieithrwydd', 'meddwl systemau', 'cydraddoldeb', a 'cefnogol a chyd-ddibynnol' a 'diwylliant perfformiad uchel'. Bydd y gwaith yn sicrhau bod y PEY yn addas ar gyfer rhoi y Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion ar waith.

PROFFIL EFFEITHIOLRWYDD YSGOLION
ARWEINYDDIAETH – YSGOL

Diben Cenedlaethol – Darparu cymuned ddysgu i bawb sy'n cymryd rhan ym mywyd yr ysgol, sy'n rhoi plant a phobl ifanc a'u teuluoedd wrth wraidd hynny ac sy'n cynnwys llywodraethwyr, athrawon ac aelodau eraill o staff yr ysgol ac oedolion sy'n hyfforddi i weithio yn yr ysgol

Mae'n cyfrannu at gyflawni'r diben cenedlaethol drwy: "… meithrin gallu ac arbenigedd arwain dosbarthedig drwy'r system"

		Disgwyliedig	Datblygu	Cryfhau	Trawsnewid	Estyn
Gweledigaethol a Strategol	**Gweledigaeth**	Mae'r ysgol wedi nodi gweledigaeth i lywio ei datblygiad ac mae wedi'i chyfleu i randdeiliaid	Datblygwyd y weledigaeth gyda rhanddeiliaid ac mae'n pennu nodau a blaenoriaethau'r ysgol	Mae'r weledigaeth yn canolbwyntio'n glir ar wella canlyniadau dysgu a lles i blant a phobl ifanc. Mae cymuned yr ysgol, gan gynnwys y disgyblion eu hunain, yn ei deall. Mae'n dylanwadu ar benderfyniadau yn yr ysgol	Rhennir a chefnogir y weledigaeth gan gymuned yr ysgol, gan gynnwys y disgyblion eu hunain, a'i rhanddeiliaid allweddol yn y gymuned ehangach. Mae'n ymestynnol o ran ei disgwyliadau ar gyfer disgyblion. Fe'i llywir gan ddatblygiadau lleol a chenedlaethol	5.1, 5.2 5.3
	Disgwyliad	Mae uwch arweinwyr yn cyfleu disgwyliadau uchel o ran disgyblion ac ymarferwyr	Mae holl arweinwyr yr ysgol yn adlewyrchu yn eu gwaith, eu harfer a'u deialog broffesiynol bwyslais cyffredin ar safonau uchel ar gyfer ymarferwyr a disgyblion	Mae arweinwyr yn galluogi dysgu proffesiynol am wireddu'r dyheadau i sicrhau ansawdd cyson mewn addysgu a dysgu	Mae'n amlwg bod ymrwymiad cyffredin ymhlith gweithlu'r ysgol a llywodraethwyr yr ysgol i ddarparu addysg o safon gyson uchel a sicrhau bod pob disgybl yn cyrraedd safonau uchel	5.4
	Cysondeb	Mae arweinwyr yn cyfleu eu safbwynt ar y prif faterion yn yr ysgol sy'n effeithio ar ganlyniadau dysgu	Mae arweinwyr yn cyfleu eu safbwynt ar faterion allweddol. Maent yn ategu eu safbwynt â chamau gweithredu i sicrhau newid	Mae arweinwyr yn cyfleu eu safbwynt ac yn rhoi rhesymau i'w ategu. Mae'r camau a gymerir i sicrhau newid yn cyd-fynd â'u safbwynt	Mae arweinwyr yn datblygu polisi ac yn sicrhau newid drwy brosesau a chydberthnasau cydweithredol, sefydledig	5.5
	Dosbarthu	Rhoddir arweiniad gan arweinwyr ffurfiol a thrwy strwythurau ffurfiol	Deëllir rolau arwain gan amrywiaeth o staff	Modelir a hyrwyddir disgwyliadau o ran arweinyddiaeth i amrywiaeth o grwpiau ac unigolion gan gynnwys llywodraethwyr a disgyblion	Dosberthir rolau arwain effeithiol ac fe'u cyflawnir gan amrywiaeth eang o staff, disgyblion a llywodraethwyr	5.6
	Blaenoriaethau	Mae set glir o flaenoriaethau ar gyfer datblygu'r ysgol a bennwyd gan y grŵp arwain	Pennir a deëllir blaenoriaethau'r ysgol gan amrywiaeth o randdeiliaid	Mae ffocws parhaol ar wneud cynnydd yn erbyn blaenoriaethau'r ysgol ymhlith holl arweinwyr yr ysgol	Mae blaenoriaethau'r ysgol yn adlewyrchu datblygiadau lleol a chenedlaethol ac maent yn canolbwyntio ar sicrhau bod yr ysgol yn barod i ddarparu addysg o safon uchel a chyrraedd safonau cyson uchel	5.7, 5.8 5.9
	Nodiadau					

PROFFIL EFFEITHIOLRWYDD YSGOLION
ARWEINYDDIAETH – YSGOL

Mae'n cyfrannu at gyflawni'r diben cenedlaethol drwy: "… (defnyddio) adnoddau – dynol, amser ac ariannol –yn effeithiol i ategu dysgu a gwella mewn ystafelloedd dosbarth"

		Disgwyliedig	Datblygu	Cryfhau	Trawsnewid	Estyn
Defnyddio Adnoddau	**Rolau**	Mae pob aelod o staff yn gwybod ei rolau a'i gyfrifoldebau	Mae rolau a chyfrifoldebau a ddeëllir yn glir ar gyfer unigolion Mae disgwyliadau o ran lefelau dirprwyo yn glir. Rhoddir cymorth i sicrhau bod gan yr unigolion y cymwyseddau i gyflawni eu cyfrifoldebau	Cefnogir a datblygir rolau a chyfrifoldebau staff drwy bolisi datblygu staff cynhwysfawr	Mae rolau a chyfrifoldebau yn hysbys ac wedi'u cofnodi. Rhoddir hyfforddiant i gynorthwyo unigolion i ddatblygu ac ymgymryd â rolau arwain	5.7
	Datblygu Arweinwyr	Ceir cyfleoedd neu mae cyfleoedd yn cael eu datblygu i staff ymgymryd â rolau a chyfrifoldebau arwain mewn rhai meysydd	Mae pob aelod o staff yn adnabod ei rolau a'i gyfrifoldebau arwain. Anogir disgyblion i ymgymryd â rolau arwain	Nodir anghenion o ran arweinwyr yn y dyfodol ac mae'r ysgol yn gwneud cynlluniau i'w diwallu. Cynorthwyir disgyblion i ymgymryd â rolau arwain	Nodir anghenion o ran arweinwyr yn y dyfodol ar bob lefel a cheir prosesau i ategu'r gwaith o ddatblygu arweinwyr a chynllunio olyniaeth. Mae disgyblion yn cyflawni rolau arwain	5.6, 7.5
	Setiau sgiliau	Mae'r set o sgiliau yn yr ysgol yn ddigonol i ddiwallu anghenion cyffredinol y rhan fwyaf o'r disgyblion	Mae'r ysgol yn ystyried y set o sgiliau sydd ei hangen i ddiwallu anghenion penodol pob disgybl ac yn llunio cynllun i'w darparu	Mae rhaglen datblygiad proffesiynol yr ysgol yn gwella sgiliau staff i ddiwallu anghenion penodol pob disgybl	Mae'r set o sgiliau staff yn rhagweld tueddiadau ac anghenion disgyblion. Mae'n cyfrannu at ddatblygiad ehangach yr ysgol ac yn datblygu arbenigedd	7.1, 5.5
	Cysoni	Darperir digon o adnoddau i'r rhan fwyaf ar gyfer profiadau dysgu	Mae gan yr ysgol gryfderau a gwendidau archwiliedig o ran darparu adnoddau ar gyfer profiadau dysgu ac mae'n cynllunio i gynyddu'r adnoddau a ddarperir dros amser	Caiff effaith adnoddau ar addysgu a dysgu ei hadolygu'n rheolaidd; gwneir cynlluniau i ddiwallu anghenion yn y dyfodol	Gwerthusir effaith adnoddau ar addysgu a dysgu ac mae'n llywio penderfyniadau ynghylch adnoddau yn y dyfodol	7.2
	Ystafelloedd	Mae ystafelloedd wedi'u trefnu'n ddigon da	Mae ystafelloedd wedi'u trefnu'n effeithiol. Nodir diffygion a gwneir cynlluniau i wneud gwelliannau	Mae'r ysgol yn ystyried effaith ystafelloedd ar addysgu a dysgu ac yn ystyried atebion creadigol i broblemau cyfredol	Defnyddir ystafelloedd yn ddychmygus ac yn effeithiol i ategu addysgu a dysgu	7.3, 7.4, 7.6, 7.7, 6.6
	Nodiadau					

PROFFIL EFFEITHIOLRWYDD YSGOLION
ARWEINYDDIAETH – YSGOL

Mae'n cyfrannu at gyflawni'r diben cenedlaethol drwy: "…cyrff llywodraethu a thimau arwain yn cydweithio i ddatblygu ymrwymiad cyffredin i sicrhau rhagoriaeth, darpariaeth o safon gyson uchel a gwell canlyniadau i blant a phobl ifanc"

		Disgwyliedig	Datblygu	Cryfhau	Trawsnewid	Estyn
Cydweithredu	**Anghenion**	Mae arweinwyr yn ymgynghori â rhanddeiliaid ynghylch eu disgwyliadau o'r ysgol	Mae arweinwyr yn deall anghenion a materion rhanddeiliaid ac maent yn cynllunio i wella ymateb yr ysgol iddynt	Mae arweinwyr yn rhoi cymorth a chyfarwyddyd sy'n adlewyrchu anghenion rhanddeiliaid a'r meysydd ar gyfer gwella	Mae arweinwyr yn meithrin cydberthnasau o safon uchel sy'n seiliedig ar ymddiriedaeth rhwng yr holl randdeiliaid. Mae ymdeimlad o ymrwymiad cyffredin yn sicrhau bod anghenion rhanddeiliaid yn cael eu diwallu	5.1, 5.2
	Canlyniadau	Mae arweinwyr yn canolbwyntio ar addysgu, dysgu a safonau	Mae arweinwyr yn nodi'n glir eu disgwyliadau o ran gwella addysgu, canlyniadau dysgu a lles	Mae arweinwyr yn cydweithio i wella addysgu, canlyniadau dysgu a lles	Gall arweinwyr weithio'n fedrus gydag eraill, yn yr ysgol a'r tu allan iddi i wella addysgu, canlyniadau dysgu a lles	6.2, 6.3, 6.4, 6.5, 6.7
	Arweinyddiaeth ymarferwyr	Mae ymarferwyr yn cydnabod bod ganddynt rôl arwain yn eu gwaith i wella canlyniadau	Mae ymarferwyr yn ymgymryd â rolau arwain mewn dysgu ac addysgu. Maent yn dechrau defnyddio eu cyfleoedd datblygu proffesiynol i wella eu sgiliau arwain	Mae ymarferwyr yn defnyddio sgiliau arwain effeithiol mewn dysgu ac addysgu. Maent yn cymryd rhan yn rheolaidd mewn rhaglenni datblygu proffesiynol i wella eu sgiliau arwain	Mae pob ymarferwr yn dangos arweinyddiaeth effeithiol ac yn ystyried ac yn gwerthuso ei berfformiad fel arweinydd. Maent yn defnyddio canlyniadau'r broses hon i lywio eu datblygiad proffesiynol eu hunain.	6.1
	Cydberthnasau	Mae gan arweinwyr gydberthnasau cefnogol â phob aelod o weithlu'r ysgol	Mae arweinwyr yn sefydlu cydberthnasau pwrpasol â staff, disgyblion ac aelodau o'r gymuned	Mae cydberthnasau yn canolbwyntio ar wella addysgu, dysgu a chanlyniadau	Mae cydberthnasau yn ei gwneud yn bosibl i gynnal gwerthusiadau tra myfyriol o gryfderau a gwendidau mewn addysgu, canlyniadau disgyblion a lles	7.5
	Adborth	Mae arweinwyr yn cyfathrebu'n glir ac yn rhoi adborth adeiladol i staff	Mae'r system rheoli perfformiad yn rhoi adborth effeithiol ar addysgu, dysgu a safonau	Mae arweinwyr ar bob lefel yn rhoi ac yn cael adborth ar sgiliau arwain	Mae trefniadau rheoli perfformiad yn hwyluso adborth effeithiol, maent yn sefydledig iawn ac yn llywio gwelliannau mewn arweinyddiaeth, addysgu a dysgu a chanlyniadau a lles disgyblion	6.3
	Nodiadau					

PROFFIL EFFEITHIOLRWYDD YSGOLION
ARWEINYDDIAETH – YSGOL

Cysylltiadau â Fframwaith Arolygu Cyffredin Estyn

Gweledigaethol a Strategol	Defnyddio Adnoddau	Cydweithredu
CA 5. Pa mor effeithiol yw arweinwyr a rheolwyr strategol 5.1 rhoi cyfeiriad clir drwy werthoedd, nodau, amcanion a thargedau a ddeëllir yn llawn gan bawb sy'n ymwneud â darparu addysg, hyfforddiant a gwasanaethau eraill 5.2 meddu ar nodau a gwerthoedd pendant sy'n hyrwyddo cydraddoldeb i bawb ac a adlewyrchir yng ngwaith y darparwr 5.3 ystyried blaenoriaethau cenedlaethol a phartneriaethau lleol a chytundebau consortia 5.4 gosod a chyflawni targedau a nodau ymestynnol a realistig 5.5 rheoli a gwella perfformiad aelodau unigol o staff, timau ac adrannau 5.6 cynnal arfarniadau neu adolygiadau effeithiol o staff i hyrwyddo eu datblygiad proffesiynol a gwella ansawdd y ddarpariaeth Helpu Llywodraethwyr i 5.7 pennu cyfeiriad strategol y darparwr 5.8 monitro ansawdd y ddarpariaeth yn rheolaidd 5.9 bodloni gofynion rheoliadol a chyfreithiol	CA 7. Pa mor effeithlon yw arweinwyr a rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau 7.1 mae digon o staff addysgu a hyfforddi a staff cymorth eraill â chymwysterau, arbenigedd a phrofiad 7.2 mae adnoddau dysgu priodol sy'n bodloni gofynion ei brofiadau dysgu ar gael i bob disgybl 7.3 mae ystafelloedd yn darparu lleoliad addas ar gyfer addysgu, dysgu a chymorth da i bob disgybl 7.4 gwneir defnydd darbodus, effeithlon ac effeithiol o'r adnoddau sydd ar gael 7.5 defnyddir, rheolir a datblygir staff addysgu a hyfforddi a staff cymorth yn effeithiol 7.6 sicrheir bod adnoddau yn cyd-fynd â blaenoriaethau'r darparwr ar gyfer datblygu 7.7 adolygir y defnydd a wneir o adnoddau yn rheolaidd i sicrhau gwerth am arian Eraill 6.6 sicrhau bod blaenoriaethau yn cael eu cefnogi drwy neilltuo digon o adnoddau	CA 6. Pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn gwerthuso ac yn gwella ansawdd a safonau Mae arweinwyr yn 6.1 gwybod llawer am y perfformiad yn y meysydd y maent yn gyfrifol amdanynt ac yn defnyddio'r wybodaeth yn effeithiol 6.2 sefydlu trefniadau hunanwerthuso sy'n gynhwysfawr ac yn systematig ac yn seiliedig ar dystiolaeth uniongyrchol 6.3 ceisio barn disgyblion, staff a phartïon eraill â diddordeb ac yn eu hystyried 6.4 sicrhau bod pawb sy'n ymwneud â darparu addysg, hyfforddiant a gwasanaethau eraill yn deall y trefniadau hunanwerthuso ac yn cymryd rhan lawn ynddynt 6.5 pennu blaenoriaethau a chamau gweithredu clir i sicrhau gwelliannau 6.6 sicrhau bod blaenoriaethau yn cael eu cefnogi drwy neilltuo digon o adnoddau 6.7 yn gallu dangos bod y camau a gymerwyd wedi arwain at welliannau mesuradwy

PROFFIL EFFEITHIOLRWYDD YSGOLION
GWEITHIO GYDAG ERAILL – YSGOL

Diben Cenedlaethol – Darparu neu hwyluso addysg fel y gall ysgolion gyfrannu at ddiwallu anghenion y gymuned a chynnwys y gymuned fel partneriaid i sicrhau bod pob ysgol yn canolbwyntio ar y gymuned; i hyrwyddo diwylliant o gynhwysiant cymdeithasol a pharch at amrywiaeth, yn enwedig drwy ddatblygu lles disgyblion a phersonoleiddio eu dysgu

Mae'n cyfrannu at gyflawni'r diben cenedlaethol drwy: "…cynnig profiadau a chyfleoedd y tu allan i'r ysgol sy'n berthnasol i fywydau a dyheadau plant a defnyddio'r ystod lawn o adnoddau ac arbenigedd yn y gymuned ehangach, gan gynnwys busnesau, asiantaethau statudol eraill a'r sector gwirfoddol i helpu i wella canlyniadau a lles disgyblion"

		Disgwyliedig	Datblygu	Cryfhau	Trawsnewid	Estyn
Yn canolbwyntio ar y dinesydd	**Cyfathrebu**	Mae gan yr ysgol system sefydledig ar gyfer cyfathrebu â rhieni ac eraill Rhoddir gwybodaeth ddefnyddiol, hawdd ei darllen am gynnydd yr ysgol a disgyblion i rieni a gofalwyr	Mae'r rhan fwyaf o grwpiau rhieni mewn cysylltiad rheolaidd â'r ysgol neu maent yn ymwneud yn rheolaidd â'r ysgol. Mae'r llywodraethwyr yn chwarae rhan weithredol o fewn yr ysgol. Ceir prosesau i groesawu ac annog cyfranogiad rhieni y tu hwnt i gyfleoedd ffurfiol	Mae'r ysgol wedi edrych ar lefel ymgysylltu rhieni a grwpiau cymunedol â'r ysgol ac mae wedi sefydlu prosesau i roi gwybodaeth i rieni y mae eu cysylltiad â'r ysgol wedi bod yn gyfyngedig yn draddodiadol a'u cynnwys.	Mae dulliau gweithredu arloesol sy'n briodol i'r cyd-destun yn sicrhau y gall pob rhiant a grŵp cymunedol gael mynediad i'r ysgol neu gymryd rhan ynddi	2.12 6.3
	Cynllunio'r cwricwlwm	Mae'r ysgol yn addasu darpariaeth a gweithgareddau cwricwlaidd yr ysgol mewn ymateb i anghenion lleol	Mae'r ysgol yn ceisio ymgysylltu â grwpiau cymunedol lleol a busnesau lleol; mae'n croesawu eu cyfraniad at weithgareddau'r ysgol ac wrth godi dyheadau disgyblion	Mae'r ysgol yn ceisio barn grwpiau cymunedol lleol a busnesau lleol yn rheolaidd ac yn ystyried eu barn a'u hanghenion wrth gynllunio'r cwricwlwm a gweithgareddau eraill yr ysgol	Mae'r ysgol yn gweithredu partneriaeth strategol â chymuned yr ysgol. Mae hyn yn galluogi partneriaid cymunedol i gefnogi nodau a chwricwla'r ysgol a chyfrannu atynt	3.4
	Datblygu polisi	Mae'r ysgol yn hysbysu rhieni o ddatblygiadau allweddol yn yr ysgol	Mae'r ysgol yn ymgynghori â rhieni o bryd i'w gilydd ynghylch datblygiadau allweddol yn yr ysgol	Wrth ystyried datblygiadau yn yr ysgol a pholisïau'r ysgol, mae'r ysgol yn ceisio barn rhieni a grwpiau cymunedol fel rhan o'r drefn	Mae dulliau gweithredu arloesol yn sicrhau y gall pob rhiant a grŵp cymunedol gymryd rhan mewn trafodaethau ynghylch datblygiadau yn yr ysgol a pholisïau'r ysgol	3.6
	Nodiadau					

PROFFIL EFFEITHIOLRWYDD YSGOLION
GWEITHIO GYDAG ERAILL – YSGOL

Mae'n cyfrannu at gyflawni'r diben cenedlaethol drwy: "… canolbwyntio ar y gymuned ac yn berthnasol i fywydau plant a phobl ifanc y tu allan i'r ysgol ac oriau'r ysgol, gan gydnabod amrywiaeth ieithyddol a diwylliannol"

		Disgwyliedig	Datblygu	Cryfhau	Trawsnewid	Estyn
Canolbwyntio ar y Gymuned	**Partneriaethau**	Ceir partneriaethau sy'n cynorthwyo disgyblion yn yr ysgol a'r tu allan iddi	Mae gweithgarwch yr ysgol yn ceisio cynnwys partneriaid sy'n rhanddeiliaid yn y gwaith o hyrwyddo nodau'r ysgol a diwallu anghenion ei disgyblion	Mae'r ysgol yn gweithio mewn partneriaeth â rhieni, gofalwyr, y gymuned leol a chyflogwyr. Mae'n ymateb i'w barn a'u dyheadau ar gyfer y disgyblion	Mae gan yr ysgol nifer o bartneriaethau strategol sefydledig sy'n ategu'r gwaith o ddiwallu anghenion a bodloni dyheadau disgyblion. Mae disgyblion yn cyfrannu at nodi'r anghenion a'r dyheadau hynny	3.6
	Allgyrsiol	Mae'r ysgol yn darparu rhai gweithgareddau allgyrsiol sy'n gwneud cyfraniad cadarnhaol at gyflawniadau a chyrhaeddiad disgyblion	Mae'r ysgol yn datblygu arfer wrth ddarparu amrywiaeth eang o weithgareddau a chyfleoedd dysgu i ddiwallu anghenion disgyblion, eu teuluoedd a'r gymuned	Mae gan yr ysgol bolisi ac arfer sy'n cysylltu gweithgareddau y tu allan i'r ysgol â chyflawniadau, cyrhaeddiad a lles disgyblion	Mae'r ysgol yn gweithio gydag amrywiaeth eang o wasanaethau ychwanegol ac yn eu hyrwyddo i ddiwallu anghenion yr ysgol a'r gymuned er mwyn gwella cyrhaeddiad a lles disgyblion	3.4
	Nodau a gwerthoedd cyffredin	Mae'r ysgol yn cyfleu nodau a gwerthoedd yr ysgol i rieni.	Mae'r ysgol yn mynd ati i geisio sicrhau bod ymarferwyr, plant, pobl ifanc, eu teuluoedd a grwpiau cymunedol lleol yn deall ac yn rhannu nodau a gwerthoedd yr ysgol. Mae'n sicrhau cyfranogiad yn y broses hon	Mae'r ysgol yn mynd ati i geisio sicrhau dealltwriaeth gyffredin rhwng ymarferwyr, rhieni/gofalwyr, grwpiau cymunedol a gweithwyr proffesiynol eraill o arferion yr ystafell ddosbarth sy'n arwain at well dysgu a lles yn yr ystafell ddosbarth	Mae cydberthnasau dwyffordd sefydledig yr ysgol â rhanddeiliaid yn hyrwyddo dealltwriaeth o nodau, gwerthoedd ac arferion ystafell ddosbarth yr ysgol ac yn annog pobl i'w rhannu ac maent yn ategu'r gwaith o ddiwallu anghenion disgyblion a sicrhau eu lles	5.1 5.2
	Nodiadau					

PROFFIL EFFEITHIOLRWYDD YSGOLION
GWEITHIO GYDAG ERAILL – YSGOL

Mae'n cyfrannu at gyflawni'r diben cenedlaethol drwy: "…gweithio gydag asiantaethau eraill i ddarparu rhaglenni 'cydgysylltiedig', (fel y) gellir defnyddio'r ystod lawn o adnoddau ac arbenigedd i wella canlyniadau a lles disgyblion"

		Disgwyliedig	Datblygu	Cryfhau	Trawsnewid	Estyn
Cydgysylltiedig	**Llywodraethu**	Mae strwythurau llywodraethu a gwneud penderfyniadau yn glir	Adolygir prosesau llywodraethu a gwneud penderfyniadau i sicrhau eu bod yn gweithio'n dda ac yn cynnwys staff, rhieni a disgyblion	Mae cyfranogiad cynhwysol ac effeithiol gan randdeiliaid mewn prosesau llywodraethu a gwneud penderfyniadau yn cael ei wella gan hyfforddiant sefydlu a hyfforddiant arall	Mae cyfranogiad mewn prosesau llywodraethu a gwneud penderfyniadau a'r prosesau eu hunain yn datblygu lefelau uchel o ymrwymiad ymhlith rhanddeiliaid i'r ysgol ac i'w gwella	5.7
	Cyfathrebu	Cyflëir penderfyniadau ac mae prosesau cofnodi ar waith	Ceir prosesau hysbys i gofnodi a chyfleu penderfyniadau. Mae strategaeth gyfathrebu yn sicrhau yr hysbysir rhanddeiliaid allweddol o wybodaeth a phenderfyniadau perthnasol	Rhoddir gwybodaeth am gyfeiriad a blaenoriaethau'r ysgol fel rhan o'r drefn i bob llywodraethwr, rhiant, aelod o staff a myfyriwr	Mae strategaeth gyfathrebu effeithiol yn sicrhau bod rhanddeiliaid yn teimlo eu bod yn cael gwybodaeth briodol ac yn cyfrannu at flaenoriaethau a chynnydd yr ysgol	2.12
	Partneriaeth â'r ALl	Mae'r ysgol yn ymwybodol o waith cynllunio a blaenoriaethau'r Awdurdod Lleol o ran addysg	Mae'r ysgol yn cyfrannu at ddatblygu cynlluniau a gwaith blaenoriaethu addysg lleol.	Mae'r ysgol yn gweithio'n dda gyda'r awdurdod lleol ac ysgolion cyfagos o bob sector i ddiwallu anghenion disgyblion yn yr ardal leol yn well.	Mae'r ysgol yn ymateb yn effeithiol i heriau addysgol yr ardal leol gan gynnwys gweithio'n effeithiol gydag ysgolion ac asiantaethau eraill	5.3
	Saith nod craidd	Mae'r ysgol yn ymwybodol o'r saith nod craidd ar gyfer plant a phobl ifanc a'r Safonau Cenedlaethol ar gyfer Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc yng Nghymru	Mae'r ysgol wedi ymateb i'r saith nod craidd ar gyfer plant a phobl ifanc yn ei chynlluniau gwella	Mae'r ysgol yn gweithio'n dda gydag asiantaethau eraill i gynorthwyo'r disgyblion sydd fwyaf agored i niwed yn yr ysgol	Mae cynllun gwella'r ysgol yn sicrhau cyfraniad gweithredol at gyflawni'r saith nod craidd sy'n seiliedig ar UNCRC ar gyfer pob plentyn a pherson ifanc a'r Safonau Cenedlaethol ar gyfer Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc sydd o dan ei gofal	5.3
	Blaenoriaethau Allanol	Mae'r ysgol yn ystyried blaenoriaethau cenedlaethol, cynlluniau'r bartneriaeth plant a phobl ifanc, partneriaethau lleol a chytundebau consortia	Mae'r ysgol yn chwarae rhan weithredol yng ngwaith cynllunio addysg a pholisïau addysg yr awdurdod lleol ac yn cefnogi cynlluniau'r bartneriaeth plant a phobl ifanc	Mae gan yr ysgol strwythurau a phrosesau effeithiol sy'n ei galluogi i weithio mewn partneriaeth â'r awdurdod lleol ac ysgolion partner i wella canlyniadau a lles disgyblion	Mae cynllun gwella'r ysgol yn ystyried blaenoriaethau addysg cenedlaethol a lleol yn ogystal â chyfraniadau rhanddeiliaid er mwyn ymateb yn effeithiol i heriau addysgol yr ardal leol a gwella canlyniadau a lles disgyblion	5.3
	Rhannu gwybodaeth	Mae'r ysgol yn rhannu gwybodaeth berthnasol â'r awdurdod lleol ac asiantaethau eraill mewn perthynas â'r plant a'r bobl ifanc sydd o dan ei gofal	Mae'r ysgol yn rhoi gwybodaeth amserol a phriodol i alluogi ymarferwyr eraill i roi eu cymorth i'r plentyn, y person ifanc, y rhiant neu'r gofalwr	Mae'r ysgol yn gweithio'n dda wrth ddatblygu partneriaethau ac yn cyfathrebu'n effeithiol er mwyn diwallu anghenion plant, pobl ifanc a'u rhieni neu eu gofalwyr yn well	Mae'r ysgol yn gweithio'n effeithiol yng nghyd-destun tîm amlddisgyblaeth, gan ffurfio a chynnal cydberthnasau ar draws asiantaethau a pharchu cyfraniad eraill sy'n gweithio gyda phlant, pobl ifanc a theuluoedd a gwella canlyniadau dysgu a lles	6.3 6.4
	Nodiadau					

PROFFIL EFFEITHIOLRWYDD YSGOLION
GWEITHIO GYDAG ERAILL – YSGOL

Mae'n cyfrannu at gyflawni'r diben cenedlaethol drwy: "…bod â rôl bwysig i'w chwarae o ran cynnig i blant a phobl ifanc brofiadau a chyfleoedd a gymerir yn ganiataol gan eu cyfoedion mwy breintiedig

		Disgwyliedig	Datblygu	Cryfhau	Trawsnewid	Estyn
Cynhwysol	**Anghenion disgyblion**	Mae'r ysgol yn ystyried cefndir cymdeithasol, addysgol, ethnig neu ieithyddol disgyblion ac yn eu cynorthwyo a'u cynghori'n briodol	Mae'r ysgol yn ystyried cyflawniadau a chyrhaeddiad cymharol unigolion a grwpiau gwahanol o ddisgyblion ac yn defnyddio adnoddau i leihau amrywiadau	Mae deall anghenion dysgu a lles gwahanol unigolion a grwpiau yn yr ysgol yn nodwedd reolaidd ar raglen datblygu proffesiynol yr ysgol. Archwilir effeithiolrwydd rhaglenni cymorth ac ymyrraeth yn rheolaidd	Mae gwaith cynllunio ac addysgu cydweithredol wedi'i sefydlu ac mae'r gwaith o ddatblygu oedolion ychwanegol ac adnoddau eraill yn cael ei adolygu yn rheolaidd mewn ymateb i anghenion disgyblion a'u heffeithiolrwydd o ran gwella canlyniadau disgyblion	3.1 4.11 4.13
	Amgylchedd dysgu	Dengys nodau a gwerthoedd yr ysgol barch at gefndiroedd ac anghenion gwahanol disgyblion; dengys polisïau'r ysgol sut y rhoddir y nodau a'r gwerthoedd hyn ar waith. Mae gan yr ysgol weithdrefnau ar gyfer herio ymddygiad gwahaniaethol	Mae arddangosfeydd, ac adnoddau'r cwricwlwm, gweithgareddau a chynnwys y cwricwlwm yn dechrau adlewyrchu a gwerthfawrogi amrywiaeth ethnig, ieithyddol, diwylliannol a chrefyddol yr ysgol	Mae amgylchedd yr ysgol yn cael ei fonitro a'i werthuso'n systematig i sicrhau ei fod yn hyrwyddo cynhwysiant a dysgu i bawb. Mae'r disgyblion yn cymryd rhan yn y gwaith o sefydlu amgylchedd yr ysgol. Adlewyrchir a gwerthfawrogir eu profiadau diwylliannol a phersonol. Mae dewisiadau'r cwricwlwm yn adlewyrchu profiadau diwylliannol a phersonol disgyblion	Mae ymarferwyr yn uchelgeisiol ar gyfer pob plentyn a pherson ifanc ac mae'r disgwyliadau o ran dysgu yn uchel. Mae'r amgylchedd dysgu yn cyfrannu at ddealltwriaeth rhieni a gofalwyr o'r disgwyliadau ac o'r modd y gallant gynorthwyo dysgu plant a phobl ifanc gartref. Ymestynnir eu profiadau diwylliannol a phersonol. Mae dewisiadau'r cwricwlwm yn ymestyn ac yn herio profiadau diwylliannol a phersonol disgyblion	3.10 4.15 4.16
	Cyfoethogi'r cwricwlwm	Mae'r ysgol yn sicrhau bod gan bob un o'i disgyblion fynediad cyfartal i bob un o'i gweithgareddau	Mae'r ysgol yn datblygu trefniadau gwaith, mewn cydweithrediad ag asiantaethau eraill, i ddarparu gweithgareddau cyfoethogi sy'n hyrwyddo dysgu, iechyd a lles disgyblion	Mae'r ysgol wedi datblygu dealltwriaeth o'r ffactorau sy'n amharu ar ddysgu, iechyd a lles disgyblion ac mae ganddi gynllun strategol ar gyfer lleihau effaith y ffactorau hyn drwy sicrhau bod amrywiaeth o weithgareddau cyfoethogi ar gael i ddisgyblion	Mae'r ysgol yn ganolbwynt i rwydwaith o asiantaethau sy'n ceisio sicrhau bod pob disgybl yn manteisio ar ystod debyg o weithgareddau cyfoethogi	3.4 3.6
	Nodiadau					

PROFFIL EFFEITHIOLRWYDD YSGOLION
GWEITHIO GYDAG ERAILL – YSGOL

Cysylltiadau â Fframwaith Arolygu Cyffredin Estyn

Yn canolbwyntio ar y dinesydd	Yn Canolbwyntio ar y Gymuned.	Cydgysylltiedig	Cynhwysol
2.12 hysbysu'r rhai â diddordeb dilys o gynnydd a chyflawniadau disgyblion 3.4 ehangu a chyfoethogi profiad disgyblion, drwy amrywiaeth o weithgareddau, gan gynnwys darpariaeth y tu allan i oriau'r ysgol a darpariaeth oddi ar y safle 3.6 fe'u cyfoethogir gan bartneriaethau effeithiol â darparwyr eraill ac â phob parti â diddordeb 6.3 ceisio ac ystyried barn disgyblion, staff a phartïon eraill â diddordeb	3.4 Ehangu a chyfoethogi profiad disgyblion, drwy amrywiaeth o weithgareddau, gan gynnwys darpariaeth y tu allan i oriau'r ysgol a darpariaeth oddi ar y safle. 3.5 fe'u cyfoethogir gan bartneriaethau effeithiol â darparwyr eraill ac â phob parti â diddordeb 5.1 rhoi cyfeiriad clir drwy werthoedd, nodau, amcanion a thargedau a ddeëllir yn llawn gan bawb sy'n ymwneud â darparu addysg, hyfforddiant a gwasanaethau eraill 5.2 meddu ar nodau a gwerthoedd penodol sy'n hyrwyddo cydraddoldeb i bawb ac a adlewyrchir yng ngwaith y darparwr	2.12 hysbysu'r rhai â diddordeb dilys o gynnydd a chyflawniadau disgyblion 5.3 ystyried blaenoriaethau cenedlaethol a phartneriaethau lleol a chytundebau consortia 5.7 mae'r llywodraethwyr yn helpu i bennu cyfeiriad strategol y darparwr 6.3 ceisio ac ystyried barn disgyblion, staff a phartïon eraill â diddordeb 6.4 sicrhau bod pawb sy'n ymwneud â darparu addysg, hyfforddiant a gwasanaethau eraill yn deall y trefniadau hunanwerthuso ac yn cymryd rhan lawn ynddynt	3.1 gwireddu dyheadau disgyblion a lle y bo'n briodol, rhoi cyfle iddynt ennill achrediadau 3.4 ehangu a chyfoethogi profiad disgyblion, drwy amrywiaeth o weithgareddau, gan gynnwys darpariaeth y tu allan i oriau'r ysgol a darpariaeth oddi ar y safle 3.6 fe'u cyfoethogir gan bartneriaethau effeithiol â darparwyr eraill ac â phob parti â diddordeb 3.10 mynd i'r afael ag anfanteision a stereoteipio cymdeithasol a sicrhau mynediad a chyfle cyfartal i bob disgybl 4.11 rhoi cymorth ychwanegol i ddiwallu anghenion unigol, gan gynnwys anghenion disgyblion ag anableddau dysgu neu anableddau corfforol, nam ar y synhwyrau ac anghenion arbennig eraill 4.13 cynorthwyo a chynghori disgyblion yn briodol gan ystyried eu cefndir cymdeithasol, addysgol, ethnig neu ieithyddol 4.15 hyrwyddo cysylltiadau hiliol da ar draws pob maes gweithgarwch 4.16 meddu ar fesurau effeithiol i ddileu ymddygiad gormesol, gan gynnwys gwahaniaethu ar sail hil, bwlio ac aflonyddu o unrhyw fath

PROFFIL EFFEITHIOLRWYDD YSGOLION
RHWYDWEITHIAU O ARFER PROFFESIYNOL – YSGOL

Diben Cenedlaethol – Sefydlu Rhwydweithiau cryf o gymunedau dysgu proffesiynol mewn ysgolion lle y gall ymarferwyr ddatblygu a rhannu eu gwybodaeth broffesiynol am ddysgu ac addysgu

Mae'n cyfrannu at gyflawni'r diben cenedlaethol drwy*:* "…rhannu arfer effeithiol i alluogi plant a phobl ifanc i gael budd o waith rhagorol mewn ystafelloedd dosbarth unigol"

		Disgwyliedig	Datblygu	Cryfhau	Trawsnewid	Estyn
Credoau a Dealltwriaeth Gyffredin	**Arferion cyffredin**	Mae cyfleoedd rheolaidd i drafod addysgu, dysgu a lles	Mae'r trafodaethau hyn yn canolbwyntio ar addysgu, dysgu a lles a'r modd y maent yn cyfrannu at gyflawni'r weledigaeth a gwerthoedd	Mae parodrwydd cynyddol i rannu arfer proffesiynol ym maes addysgu fel y sail ar gyfer ystyried a yw gweledigaeth a gwerthoedd yr ysgol yn realiti ymarferol	Mae trafodaethau proffesiynol yn seiliedig ar gredoau a dealltwriaeth gyson o addysgu, dysgu ac ennyn diddordeb disgyblion Mae barn gyson am y cysylltiadau rhwng lles a dysgu	2.2
	Cydgyfrifoldeb	Cesglir a dadansoddir tystiolaeth am ddysgu, cynnydd a lles disgyblion unigol a grwpiau o ddisgyblion	Dadansoddir tystiolaeth am ddysgu, cynnydd a lles disgyblion unigol a grwpiau o ddisgyblion a'r graddau y mae llwyddiant pob disgybl wedi'i warantu gan rai grwpiau yn yr ysgol	Mae ymdeimlad cynyddol o gydgyfrifoldeb drwy'r ysgol am ddysgu, cynnydd a lles pob disgybl	Mae'r ysgol gyfan – gan gynnwys y disgyblion eu hunain - yn cynnal deialog reolaidd a manwl am ddysgu, cynnydd a lles pob disgybl. Ceir ymdeimlad o gydgyfrifoldeb am lwyddiant pob disgybl ym mhob rhan o'r ysgol	2.9
	Nodiadau					

PROFFIL EFFEITHIOLRWYDD YSGOLION
RHWYDWEITHIAU O ARFER PROFFESIYNOL – YSGOL

Mae'n cyfrannu at gyflawni'r diben cenedlaethol drwy: "…sicrhau y gall arweinwyr ac ymarferwyr weld y wybodaeth ddiweddaraf am arweinyddiaeth, dysgu, addysgu a lles plant a phobl ifanc"

		Disgwyliedig	Datblygu	Cryfhau	Trawsnewid	Estyn
Seiliedig ar Ymchwil	**Gwella addysgu**	Mae trafod addysgu yn nodwedd reolaidd ar y strwythur cyfarfodydd ysgol ffurfiol	Mae rhai aelodau o staff yn cymryd rhan mewn gweithgareddau ymchwil weithredu, gan gynnwys arsylwi yn yr ystafell ddosbarth, i archwilio a gwella dysgu ac addysgu	Mae llawer o staff wrthi'n archwilio arferion yr ystafell ddosbarth gyda hyder gan ddefnyddio gwahanol ddulliau i archwilio a gwella dysgu ac addysgu	Mae'r ymgais i wella addysgu drwy astudio a defnyddio canlyniadau yn treiddio drwy'r ysgol	7.5
	Syniadau a rennir	Anogir staff i gydweithio a rhannu strategaethau addysgu a dysgu a strategaethau cymorth	Mae'r rhan fwyaf o staff yn cydweithio i gynllunio a rhannu strategaethau addysgu a dysgu a strategaethau cymorth	Ceir llawer o enghreifftiau o waith tîm cynhyrchiol, rhannu syniadau ac adnoddau ymhlith ymarferwyr	Mae gwaith cynllunio cydweithredol, rhannu syniadau a datrys problemau ar y cyd ymhlith ymarferwyr yn gyffredin	6.3
	Yn seiliedig ar ddata	Mae uwch reolwyr yn archwilio amrywiaeth o ddata i nodi i ba raddau y mae perfformiad disgyblion yn yr ysgol yn amrywio	Mae rhai aelodau o staff yn casglu ac yn defnyddio data i lywio a datblygu'r gwaith o ymchwilio i amrywiadau mewn dysgu ac addysgu yn yr ysgol a gwneud gwelliannau	Defnyddir data ar gynnydd a lles disgyblion yn gyson i ategu'r gwaith o wella addysgu	Mae lefel yr amrywio yn yr ysgol yn hysbys ac eir i'r afael ag ef yn broffesiynol drwy wella addysgu	5.5, 5.6
	Cymryd risgiau	Mae uwch reolwyr yn ymwybodol o wybodaeth newydd am ddatblygiadau arloesol ym maes addysgeg ac am y modd y mae disgyblion yn dysgu	Mae rhai aelodau o staff yn rhoi cynnig ar arfer newydd ac arloesol ac yn gwerthuso ei effaith	Mae gwybodaeth newydd ac arloesi wedi'u lledaenu'n ehangach. Gwerthusir a rhennir ei effaith fel arfer.	Mae pob aelod o staff yn sicr wrth gymryd risgiau yn ei arfer. Mae gan yr ysgol ddiwylliant o werthuso effaith arfer newydd ac arloesol a rhannu'r hyn sy'n gweithio yn eang	
	Nodiadau					

PROFFIL EFFEITHIOLRWYDD YSGOLION
RHWYDWEITHIAU O ARFER PROFFESIYNOL – YSGOL

Mae'n cyfrannu at gyflawni'r diben cenedlaethol drwy: "…cynyddu gwybodaeth a dealltwriaeth broffesiynol"

		Disgwyliedig	Datblygu	Cryfhau	Trawsnewid	Estyn
Cydbroffesiynoldeb	**Rhwydweithiau a gynorthwyir**	Mae gan yr ysgol fforwm i ddatblygu arfer proffesiynol dysgu ac addysgu	Mae pennaeth yr ysgol ac uwch reolwyr yn rhoi sylw i weithredu a datblygu'r rhwydwaith o arfer proffesiynol, darparu adnoddau ar ei gyfer a'i werthuso	Mae cyfranogiad yn y rhwydwaith o arfer proffesiynol yn gynhwysol ac mae'n cynnwys pob categori o staff, aelodau o gyngor ysgol, eraill sy'n ymwneud â'r ysgol a phartneriaethau cymunedol	Mae rhwydwaith o arfer proffesiynol yn gyfrwng sefydledig ar gyfer gwella yn yr ysgol; rhoddir sylw yn rheolaidd i werthuso'r modd y mae'n gweithredu, y cynnydd y mae wedi'i wneud a'i effaith	6.3
	Datblygu staff	Mae gan yr ysgol bolisi ar gyfer datblygu staff sy'n galluogi amrywiaeth o staff â diddordeb i gymryd rhan mewn rhaglenni hyfforddiant mewn swydd priodol	Mae proses nodi anghenion gadarn yn hyrwyddo cyfranogiad amrywiaeth o staff mewn rhaglenni dysgu proffesiynol sy'n gysylltiedig ag anghenion unigol ac anghenion yr ysgol. Mae gan yr ysgol drefniadau i alluogi staff i adrodd yn ôl ar eu dysgu proffesiynol i eraill Mae rhaglen a gynlluniwyd yn ofalus o brofiadau dysgu proffesiynol ysgol gyfan sy'n canolbwyntio ar ddysgu, addysgu a lles	Mae trefniadau systematig i alluogi pob aelod o staff i gynyddu ei wybodaeth, ei ddealltwriaeth a'i sgiliau proffesiynol, gan gynnwys cyfranogi mewn profiadau dysgu proffesiynol ysgol gyfan o safon uchel. Ceir adborth rheolaidd gan staff ar eu profiadau dysgu proffesiynol	Rhennir dysgu proffesiynol yn eang ar draws y gweithlu cyfan sy'n arwain at welliannau yn arferion yr ystafell ddosbarth a dangosir ei fod yn effeithio ar ganlyniadau a lles disgyblion	7.2, 7.5
	Y tu hwnt i'r sefydliad	Mae'r ysgol yn cyfranogi mewn rhwydweithiau proffesiynol ag ysgolion ac asiantaethau eraill	Ceir trefniadau sy'n hwyluso rhannu gwybodaeth, arfer arloesol ac effeithiol ac adnoddau rhwng staff gwahanol ysgolion ac asiantaethau eraill	Mae rhwydweithiau proffesiynol yn ymestyn i leoliadau dysgu anffurfiol a ffurfiol a gweithwyr proffesiynol o ddisgyblaethau eraill	Mae rhwydweithiau dwyffordd ag ysgolion eraill (ar draws sectorau a chyfnodau allweddol), lleoliadau dysgu ac asiantaethau yn cyfrannu'n adeiladol at feithrin gallu pob aelod o staff yn yr ysgol	3.6
	Nodiadau					

Cysylltiadau â Fframwaith Arolygu Cyffredin Estyn

Credoau a Dealltwriaeth Gyffredin	Yn Seiliedig ar Ymchwil	Cydbroffesiynoldeb
2.2 Sefydlu cydberthnasau gwaith da sy'n meithrin dysgu	5.5 rheoli a gwella perfformiad aelodau unigol o staff, timau ac adrannau	3.6 partneriaethau effeithiol, wedi'u cyfoethogi â darparwyr eraill
2.9 Asesu cyflawniadau a chynnydd disgyblion yn deg, yn gywir ac yn rheolaidd	5.6 cynnal arfarniadau neu adolygiadau effeithiol o staff i hyrwyddo eu datblygiad proffesiynol a gwella ansawdd y ddarpariaeth	6.3 ceisio ac ystyried barn disgyblion, staff a phartïon eraill â diddordeb
	6.3 ceisio ac ystyried barn disgyblion, staff a phartïon eraill â diddordeb	7.2 mae adnoddau dysgu priodol sy'n bodloni'r gofynion ar gael i bob disgybl
	7.5 defnyddir, rheolir a datblygir staff addysgu a hyfforddi a staff cymorth yn effeithiol	7.5 defnyddir, rheolir a datblygir staff addysgu a hyfforddi a staff cymorth yn effeithiol

PROFFIL EFFEITHIOLRWYDD YSGOLION
YMYRRAETH A CHYMORTH - YSGOL

Diben Cenedlaethol – Galluogi pob plentyn a pherson ifanc i gyflawni ei botensial llawn a chwarae rhan allweddol gydag ysgolion eraill a darparwyr gwasanaethau partner yn y gwaith o gynllunio a darparu gwasanaethau integredig i blant a phobl ifanc i wella eu lles

Mae'n cyfrannu at gyflawni'r diben cenedlaethol drwy: "…darparu ymyrraeth a chymorth pwrpasol a chynnar i wella perfformiad"

		Disgwyliedig	Datblygu	Cryfhau	Trawsnewid	Estyn
Cynnar a Strategol	**Monitro cynnydd**	Mae athrawon yn asesu gwaith y plant yn rheolaidd. Maent yn defnyddio'r wybodaeth hon i nodi disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol	Defnyddir amrywiaeth o dystiolaeth yn rheolaidd i nodi disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol gan gynnwys y rhai sy'n ddawnus ac yn dalentog	Defnyddir gwaith a wneir ar draws yr ysgol i gymedroli asesiadau athrawon, gwaith dadansoddi data, a gwaith a wneir i fonitro cynnydd pob grŵp gallu i lywio strategaeth ymyrraeth gynnar	Caiff cynnydd a lles dysgwyr eu holrhain ar draws yr ysgol ar lefel unigolyn, grŵp a phwnc. Mae uwch reolwyr yn adolygu cynnydd a lles disgyblion yn rheolaidd i werthuso strategaeth ymyrraeth gynnar yr ysgol	2.8,
	Targedau disgyblion	Mae disgyblion yn cael adborth ar eu cynnydd a'u cyrhaeddiad	Mae disgyblion yn cymryd rhan yn y gwaith o osod targedau	Mae disgyblion yn adolygu eu dysgu eu hunain yn rheolaidd, maent yn deall eu cynnydd ac maent yn cymryd rhan yn y gwaith o osod targedau dysgu personol, ar eu pen eu hunain a chyda'u cyfoedion	Mae disgyblion yn deall lle maent arni o ran eu dysgu, yr hyn y mae angen iddynt ei wneud i wneud cynnydd ac maent yn cymryd rhan yn y gwaith o osod eu targedau eu hunain. Rhennir gwybodaeth am gynnydd disgyblion a'r hyn sydd ei angen i wneud rhagor o gynnydd yn effeithiol â rhieni	1.2, 2.4 2.9, 2.10
	Cyfrifoldeb am arwain	Cyflëir y cyfrifoldeb dros arwain y gwaith o fynd i'r afael ag anghenion lles a dysgu yn glir	Dosberthir y cyfrifoldeb am arwain y gwaith o fynd i'r afael ag anghenion lles a dysgu yn glir	Mae uwch reolwyr yn adolygu'r cynnydd a wnaed gan yr ysgol o ran mynd i'r afael ag anghenion lles a dysgu'r disgyblion a'u diwallu	Mae'r gwaith o fynd i'r afael ag anghenion dysg a lles a'u diwallu wedi'i sefydlu fel un o gyfrifoldebau craidd yr ysgol	2.5
	Mynd i'r afael ag amrywiadau yn yr ysgol	Mae uwch arweinwyr wedi nodi amrywiadau yn yr ysgol rhwng cyraeddiadau disgyblion ar draws adrannau a meysydd cwricwlwm	Mae arweinwyr pwnc yn adolygu perfformiad yn eu meysydd pwnc i nodi amrywiadau yng nghyrhaeddiad disgyblion rhwng grwpiau	Mae sgiliau arwain a rheoli arweinwyr pwnc ac adran wrth fynd i'r afael ag amrywiadau yn yr ysgol yn cael eu gwella drwy ddatblygiad proffesiynol	Ychydig iawn o amrywio sydd yng nghyrhaeddiad disgyblion ar draws yr ysgol. Mae unrhyw amrywiadau sy'n codi rhwng adrannau a meysydd cwricwlwm yn cael eu lleihau'n systematig i godi pawb i lefel y disgybl sy'n cyflawni orau	2.3, 5.4
	Nodiadau					5.5, 5.8

PROFFIL EFFEITHIOLRWYDD YSGOLION
YMYRRAETH A CHYMORTH - YSGOL

Mae'n cyfrannu at gyflawni'r diben cenedlaethol drwy: "… ymyrryd yn nysgu plant a phobl ifanc …… yn ôl yr angen"

		Disgwyliedig	Datblygu	Cryfhau	Trawsnewid	Estyn
Gwahaniaethol	Mynd i'r afael â thangyflawni	Mae athrawon a staff cymorth yn ymwybodol o anghenion dysgu gwahaniaethol unigolion a grwpiau o ddisgyblion	Mae pob tîm yn ymwybodol o anghenion dysgu ychwanegol disgyblion a'r ymyriadau a gynlluniwyd i fynd i'r afael â hwy	Mae timau ysgol yn trafod anghenion tangyflawni, dysgu ychwanegol a lles amrywiol unigolion a grwpiau o ddisgyblion ac yn cael eu cynorthwyo i fynd i'r afael â hwy drwy ddatblygiad proffesiynol	Ymdrinnir â sut i fynd i'r afael â thangyflawniad, anghenion dysgu ychwanegol a materion lles disgyblion yn gyson yn holl bolisïau'r ysgol; gwerthusir y llwyddiant a gafwyd o ran gweithredu'r polisïau	4.10
	Canolbwyntio ar ddisgyblion unigol	Mae'r ysgol yn ceisio sicrhau bod disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn ymwybodol o ddiben yr ymyrraeth a'r cymorth	Lle bynnag y bo modd hysbysir disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol o'u targedau dysgu	Lle bo modd mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn cyfrannu at y gwaith o fonitro ac adolygu eu cynnydd	Mae'r ysgol yn ceisio sicrhau bod disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gallu nodi eu cynnydd yn eu meysydd angen a sut mae hyn wedi cyfrannu at eu cyflawniad yn gyffredinol.	4.11, 4.12
	Mynd i'r afael â lles	Trafodir materion lles ac mae rhai rhaglenni yn hyrwyddo lles disgyblion unigol	Mae lles disgyblion yn cael ei drafod gan staff. Mae rhaglenni wedi'u targedu yn darparu ar gyfer anghenion lles disgyblion unigol	Mae gan yr ysgol bolisi a rhaglenni i sicrhau lles pob plentyn a pherson ifanc. Rhennir arfer yn yr ysgol y bwriedir iddo wella lles disgyblion a gwneir gwelliannau o ganlyniad	Mae'r ysgol yn adolygu effaith ei pholisi a'i rhaglenni lles ar ddysgu a lles. Mae'n cynnwys asiantaethau eraill yn y broses hon, a'r disgyblion eu hunain pan fo'n briodol.	4.13
	Gwerthuso cymorth	Caiff cynnydd disgyblion ar raglenni ymyrraeth a chymorth ei fonitro a'i werthuso	Mae arweinwyr pwnc yn monitro effaith ymyriadau yn eu meysydd pwnc ac yn addasu neu'n newid rhaglenni yn ôl yr angen	Mae gweithgareddau datblygu proffesiynol yr ysgol yn galluogi staff i ddeall sut i ymchwilio i effaith rhaglenni cymorth ac ymyrraeth	Gwerthusir effaith rhaglenni ymyrraeth a chymorth y bwriedir iddynt fynd i'r afael â thangyflawniad, anghenion dysgu ychwanegol a materion lles disgyblion gan uwch reolwyr. O ganlyniad, gwneir newidiadau i bolisïau a rhaglenni pan fo angen	4.17
	Neilltuo adnoddau	Neilltuir adnoddau i ddiwallu anghenion rhai disgyblion neu grwpiau	Caiff adnoddau eu targedu i ategu strategaethau ymyrraeth ac asesir eu heffeithiolrwydd	Mae adnoddau yn ategu anghenion dysgu a nodwyd, canlyniadau a thargedau. Mae Datblygiad Proffesiynol Parhaus yn ategu cynaliadwyedd ymyriadau	Caiff adnoddau eu targedu i sicrhau gwelliannau a chyflawni nodau a nodwyd. Cânt eu hadolygu a'u monitro i sicrhau bod rhaglenni yn effeithiol ac yn gynaliadwy.	7.6
	Nodiadau					

PROFFIL EFFEITHIOLRWYDD YSGOLION
YMYRRAETH A CHYMORTH - YSGOL

Mae'n cyfrannu at gyflawni'r diben cenedlaethol drwy: "… gweithredu'r rhaglen (ymyrraeth) cyn gynted ag y bo modd, gan ddefnyddio amrywiaeth o strategaethau"

		Disgwyliedig	Datblygu	Cryfhau	Trawsnewid	Estyn
Datblygiad Cyflymach	**Strategaethau ymyrraeth**	Mae gan yr ysgol bolisi a rhaglen weithredu y bwriedir iddynt ategu anghenion dysgu unigol disgyblion	Mae strategaethau ymyrraeth i ategu anghenion dysgu unigol disgyblion yn dilyn rhaglenni strwythuredig sy'n mynd yn eu blaen yn ddigon cyflym ac sy'n gyfyngedig o ran amser	Adolygir effaith strategaethau ymyrraeth y bwriedir iddynt gyflymu dysgu disgyblion fel rhan o weithgareddau datblygu proffesiynol yr ysgol. Dysgir gwersi o arfer gorau yn yr ysgol a'r tu allan iddi.	Mae strategaethau addysgu ac ymyrraeth y bwriedir iddynt gyflymu cynnydd disgyblion yn cael eu cynllunio'n strategol. Cânt eu hadolygu a'u gwerthuso o fewn timau a chan uwch reolwyr.	4.1
	Rhaglenni ymyrraeth	Mae athrawon yn ymwybodol o egwyddorion allweddol a nodau dysgu rhaglenni ymyrraeth	Mae athrawon yn gweithio'n agos gydag eraill i gynllunio a darparu rhaglen ymyrraeth	Cynorthwyir gweithlu'r ysgol, drwy ddatblygiad proffesiynol, i ddeall natur anghenion tangyflawni, dysgu ychwanegol a lles yn well, a rhannu strategaethau ac arfer gorau i fynd i'r afael â hwy	Ystyrir sgiliau athrawon wrth baru athrawon â grwpiau dysgu. Mae uwch reolwyr yn cynllunio ac yn adolygu'r gwaith o ddatblygu sgiliau gweithlu'r ysgol i ddiwallu anghenion dysgu unigolion a chyflymu cynnydd disgyblion	2.5
	Cyflawni ymyriadau	Cyflawnir ymyriadau gan bersonél hyfforddedig sy'n gweithio mewn partneriaeth ag athrawon dosbarth	Mae personél cymorth sy'n cyflawni ymyriadau yn gweithio'n agos gydag athrawon dosbarth i gyflawni ymyriadau, yn meddu ar wybodaeth am y pynciau craidd, sgiliau addysgol mewn meysydd wedi'u targedu o lythrennedd/rhifedd a gallant gynnwys disgyblion yn y gwaith o fonitro eu cynnydd eu hunain	Mae'r ffordd fwyaf effeithiol o ddefnyddio gweithlu'r ysgol i sicrhau bod disgyblion yn gwneud y cynnydd mwyaf posibl yn destun trafodaeth broffesiynol o fewn timau ac ymhlith uwch reolwyr	Adolygir effaith gwahanol strategaethau ar gyfer defnyddio gweithlu'r ysgol i gyflymu dysgu ac fe'i rhennir yn yr ysgol a'r tu allan iddi.	7.1, 7.5
	Ymyriadau amlasiantaeth	Mae'r ysgol yn ymwybodol o'r cyfraniad y mae asiantaethau eraill yn ei wneud at les disgyblion unigol	Mae'r ysgol yn cysylltu'n effeithiol ag asiantaethau eraill i hyrwyddo lles disgyblion unigol	Mae'r ysgol yn cynnwys asiantaethau eraill i ategu ymagwedd ysgol gyfan at hyrwyddo lles disgyblion unigol	Mae'r ysgol yn cyfrannu at gyflawni'r blaenoriaethau yn y Cynllun Plant a Phobl Ifanc lleol. Mae'r ysgol yn defnyddio adnoddau'r Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc a'i hasiantaethau partner yn llwyddiannus i sicrhau'r cyflawniadau a'r lles gorau posibl ar gyfer disgyblion	4.2
	Nodiadau					

PROFFIL EFFEITHIOLRWYDD YSGOLION
YMYRRAETH A CHYMORTH - YSGOL

Cysylltiadau â Fframwaith Arolygu Cyffredin Estyn

Cynnar a Strategol	Gwahaniaethol	Datblygiad Cyflymach
1.2 Cyflawni Targedau a nodau dysgu y cytunwyd arnynt 2.3 Dangos gwybodaeth dda am ei bwnc a gwybodaeth am ddatblygiadau diweddar yn ei faes 2.4 Cynllunio'n effeithiol a meddu ar amcanion clir ar gyfer sesiynau a addysgir a phrofiadau dysgu eraill y mae disgyblion yn eu deall 2.5 Defnyddio dulliau ac adnoddau addysgu a hyfforddi sy'n sicrhau cyfranogiad gweithredol disgyblion 2.8 cynllunio i ddiwallu anghenion disgyblion unigol yn hyblyg a monitro ac adolygu eu cynnydd 2.9 asesu cyflawniadau a chynnydd disgyblion yn deg, yn gywir ac yn rheolaidd 2.10 bodloni gofynion statudol ar gyfer cofnodi ac achredu cyflawniad disgybl 5.4 gosod a chyflawni targedau a nodau ymestynnol, realistig 5.5 rheoli a gwella perfformiad aelodau unigol o staff, timau ac adrannau 5.8 monitro ansawdd y ddarpariaeth yn rheolaidd	4.10 nodi anghenion dysgu unigol yn effeithiol 4.11 rhoi cymorth ychwanegol i ddiwallu anghenion unigol gan gynnwys y disgyblion hynny ag anghenion dysgu ychwanegol 4.12 rhoi cymorth priodol i ddisgyblion y mae eu hymddygiad yn eu rhwystro hwy ac eraill rhag gwneud cynnydd 4.13 cynorthwyo a chynghori disgyblion yn briodol gan ystyried eu cefndir cymdeithasol, addysgol, ethnig neu ieithyddol 4.17 sicrhau bod disgyblion anabl yn cael eu trin yn gyfartal 7.6 sicrheir bod adnoddau yn cyd-fynd â blaenoriaethau'r darparwr ar gyfer datblygu	4.1 cynllunio a rheoli trefniadau gofal a gwasanaethau cymorth yn effeithiol 4.2 gweithio mewn partneriaeth â rhieni, gofalwyr a chyflogwyr 2.5 defnyddio amrywiaeth o ddulliau ac adnoddau addysgu sy'n sicrhau cyfranogiad gweithredol disgyblion 7.1 mae digon o staff addysgu a hyfforddi a staff cymorth eraill â chymwysterau, arbenigedd a phrofiad 7.5 defnyddir, rheolir a datblygir staff addysgu a hyfforddi a staff cymorth yn effeithiol

PROFFIL EFFEITHIOLRWYDD YSGOLION
GWELLA AC ATEBOLRWYDD – YSGOL

Diben Cenedlaethol – Galluogi pob plentyn a pherson ifanc i ddatblygu ei botensial llawn drwy feithrin sgiliau, gwybodaeth, dealltwriaeth ac agweddau, gan gynnwys sgiliau personol, cymdeithasol ac emosiynol, i'w alluogi i fod yn ddinesydd gweithredol yn economaidd, yn gymdeithasol ac yn bersonol ac yn ddisgybl gydol oes

Mae'n cyfrannu at gyflawni'r diben cenedlaethol drwy: "…defnyddio tystiolaeth fel y sail ar gyfer herio a thrafod cryfderau a gwendidau – i nodi tangyflawni neu ddisgyblion nad ydynt yn gwneud rhyw lawer o ymdrech a mynd i'r afael ag ef, i nodi gweithgarwch gwella"

		Disgwyliedig	Datblygu	Cryfhau	Trawsnewid	Estyn
Seiliedig ar Dystiolaeth	**Mathau o asesiadau**	Mae athrawon ac ymarferwyr yn defnyddio asesiadau o ddydd i ddydd i fonitro cynnydd disgyblion	Mae athrawon ac ymarferwyr yn defnyddio amrywiaeth o strategaethau asesu o ddydd i ddydd yn drylwyr	Mae athrawon ac ymarferwyr yn defnyddio amrywiaeth eang o strategaethau asesu o ddydd i ddydd i gytuno ar dargedau ar gyfer gwella a llywio ymyriadau wedi'u targedu	Mae athrawon ac ymarferwyr yn defnyddio strategaethau asesu ar gyfer dysgu hyddysg wrth gynllunio ac addysgu. Defnyddir tystiolaeth i nodi gweithgareddau gwella a gosod targedau a safonau uchel ond realistig ar y cyd â disgyblion	2.9
	Canlyniadau asesu	Defnyddir amrywiaeth o asesiadau i farnu cyrhaeddiad disgyblion. Defnyddir asesiadau i dargedu disgyblion ar gyfer rhaglenni ymyrraeth ychwanegol	Defnyddir amrywiaeth o asesiadau i: o farnu cyrhaeddiad o nodi cynnydd disgyblion o llywio grwpiau o ddisgyblion	Rhennir dadansoddiadau o asesiadau yn rheolaidd â staff i fonitro cyflawniad a llywio gwaith cynllunio, addysgu a rhaglenni ymyrraeth	Mae grwpiau blwyddyn a phwnc yn dadansoddi asesiadau yn systematig i nodi cryfderau a meysydd datblygu i ddisgyblion	2.8
	Arsylwi yn yr ystafell ddosbarth	Mae arsylwi yn yr ystafell ddosbarth yn digwydd yn rheolaidd a rhoddir adborth i athrawon	Rhennir arsylwadau ystafell ddosbarth (drwy gytundeb) rhwng staff ac fe'u defnyddir i wella'r amrywiaeth o dechnegau addysgu. Gosodir targedau ar gyfer gwella ansawdd addysgu	Mae arsylwadau ystafell ddosbarth a'r broses o gyfnewid arfer da i gynorthwyo gwahanol grwpiau o ddisgyblion wedi'u sefydlu'n gadarn	Mae arsylwi systematig gan athrawon a thrafodaethau rheolaidd ynghylch addysgu yn cyfrannu at ddysgu o safon uchel gan bob disgybl ac athro	5.5
	Perfformiad ysgol gyfan	Mae adolygiadau o berfformiad yr ysgol yn seiliedig ar dystiolaeth yn erbyn nifer o ddangosyddion	Mae adolygiadau o berfformiad yr ysgol yn cynnwys tystiolaeth gan ddisgyblion a'u rhieni/gofalwyr	Mae'r adolygiad o berfformiad cyfredol yr ysgol yn cynnwys tystiolaeth sylweddol am ansawdd yr addysgu a lles disgyblion	Mae'r adolygiad o berfformiad cyfredol yn un cynhwysfawr sy'n defnyddio tystiolaeth ansoddol a meintiol gan bob partner allweddol ac fe'i defnyddir yn effeithiol i nodi blaenoriaethau ar gyfer gwella canlyniadau a lles disgyblion.	6.1
	Blaenoriaethau yn seiliedig ar dystiolaeth	Mae'r ysgol yn casglu amrywiaeth o dystiolaeth i gynllunio ar gyfer blaenoriaethau o ran gwella'r ysgol	Mae amrywiaeth eang o dystiolaeth, sy'n cynnwys barn disgyblion ac eraill, gwybodaeth ansoddol a meintiol, yn llywio gwaith cynllunio gwelliannau	Defnyddir tystiolaeth i ganolbwyntio fwyfwy ar wella ansawdd addysgu, dysgu a lles disgyblion	Wrth lunio blaenoriaethau ar gyfer gwella canlyniadau a lles disgyblion, mae'r ysgol, fel rhan o'r drefn, yn sicrhau cyfranogiad llawn pob rhanddeiliad allweddol, gan gynnwys y disgyblion eu hunain	6.7
	Nodiadau					

PROFFIL EFFEITHIOLRWYDD YSGOLION
GWELLA AC ATEBOLRWYDD – YSGOL

Mae'n cyfrannu at gyflawni'r diben cenedlaethol drwy: "…gosod targedau a safonau uchel ond realistig"

		Disgwyliedig	Datblygu	Cryfhau	Trawsnewid	Estyn
Targedau Uchelgeisiol	**Targedau disgyblion**	Gosodir targedau ar gyfer disgyblion unigol	Mae targedau yn seiliedig ar berfformiad unigol disgyblion	Mae targedau ar gyfer disgyblion yn ystyried cyrhaeddiad, cynnydd cyflymach dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol a lles	Gosodir targedau ar gyfer disgyblion unigol ar bob lefel yn yr ysgol i wella perfformiad disgyblion ac athrawon	1.2
	Cynnwys disgyblion	Mae'r disgyblion yn ymwybodol o'r targedau a osodir ar eu cyfer	Mae'r disgyblion yn cyfrannu at osod targedau cyrhaeddiad ac yn defnyddio technegau asesu ar gyfer dysgu	Mae'r disgyblion yn cymryd rhan, yn unigol a chyda'u cyfoedion, yn y gwaith o osod eu targedau ar draws ystod o sgiliau gan wneud defnydd da o dechnegau asesu ar gyfer dysgu	Mae'r disgyblion yn defnyddio eu targedau personol a'u targedau dysgu i wella eu perfformiad, gan wneud defnydd effeithiol iawn o dechnegau asesu ar gyfer dysgu	2.11
	Disgwyliadau	Mae'r ysgol yn gosod targedau realistig ond ymestynnol i wella canlyniadau disgyblion sy'n seiliedig ar ddadansoddiadau o berfformiad cyfredol a rhagamcanol disgyblion	Mae targedau gwella'r ysgol yn seiliedig ar ganlyniadau cyfredol disgyblion, ar lefel yr unigolyn ac ar lefel pwnc. Defnyddir tystiolaeth o ansawdd addysgu i osod targedau ar gyfer gwella ansawdd addysgu	Mae targedau gwella yn cynnwys targedau ar gyfer gwella lles disgyblion	Mae targedau gwella yn seiliedig ar ddisgwyliadau uchel ar gyfer pob disgybl a lleihau'r bwlch mewn perfformiad rhwng disgyblion unigol a grwpiau o ddisgyblion	6.5
	Rheoli Perfformiad	Mae gwaith rheoli perfformiad yn cydymffurfio â gofynion statudol	Mae gwaith rheoli perfformiad yn cael effaith amlwg o ran gwella'r ysgol	Mae gwaith rheoli perfformiad yn ymestyn y tu hwnt i staff addysgu ac yn cynorthwyo unigolion i fod yn fwy effeithiol	Mae gwaith rheoli perfformiad yn cynnwys pob aelod o staff ac yn cyfrannu at well canlyniadau ar gyfer dysgu a lles plant a phobl ifanc	5.6
	Nodiadau					

PROFFIL EFFEITHIOLRWYDD YSGOLION
GWELLA AC ATEBOLRWYDD – YSGOL

Mae'n cyfrannu at gyflawni'r diben cenedlaethol drwy: "…rhoi gwybod i randdeiliaid allweddol am berfformiad absoliwt a chymharol"

		Disgwyliedig	Datblygu	Cryfhau	Trawsnewid	Est yn
Prosesau Tryloyw	**MIS**	Datblygir a defnyddir systemau gwybodaeth reoli gan grŵp cyfyng o bobl	Mae'r rhan fwyaf o staff yn cyfrannu at systemau gwybodaeth reoli ac yn eu defnyddio	Mae systemau gwybodaeth reoli yn darparu data cynhwysfawr, amserol a dibynadwy. Gall pob aelod o staff weld y data hwn ac fe'i defnyddir gan bob aelod o staff	Mae systemau gwybodaeth reoli yn darparu data electronig manwl gywir, cymaradwy a chyflwynadwy ar lefel unigolyn, dosbarth, grŵp wedi'i dargedu, carfan, pwnc ac ar lefel yr ysgol	6.1
	Storio data	Mae data yn cael ei storio yn bennaf mewn fformat papur. Fe'i defnyddir yn bennaf gan uwch reolwyr	Mae data yn cael ei storio mewn nifer o systemau gwybodaeth y gall y rhan fwyaf o staff eu defnyddio	Mae data yn cael ei storio'n gyson ac fe'i deëllir ac fe'i defnyddir gan bob aelod o staff at ddibenion addysgu a dysgu. Mae systemau gwybodaeth wedi'u hintegreiddio a'u safoni	Caiff data ei archwilio (fel y bo'n briodol) yn electronig gan staff, rhieni, disgyblion, yr ALl a Llywodraeth Cynulliad Cymru	6.2
	Dadansoddi data	Dadansoddir a defnyddir data gan arweinwyr yr ysgol i nodi ac asesu anghenion a blaenoriaethau'r ysgol	Defnyddir data i bennu blaenoriaethau'r ysgol a mesur gwelliannau ysgol gyfan. Mae gwaith dadansoddi ar lefel unigolyn, grŵp wedi'i dargedu, pwnc ac ar lefel yr ysgol yn llywio gwelliannau mewn dysgu ac addysgu	Defnyddir mesurau data lluosog sy'n nodi cryfderau, heriau a goblygiadau cynllunio ar bob lefel i lywio gwaith cynllunio, monitro cynnydd a gwerthuso effeithiolrwydd rhaglenni a strategaethau	Mae staff a rhanddeiliaid (fel y bo'n briodol), fel rhan o'r drefn ac mewn cydweithrediad, yn gwneud defnydd trwyadl o ddata i gynllunio ar gyfer anghenion yn y dyfodol	6.3 6.4 7.4 7.7
	Adborth ar gwynion	Mae gan yr ysgol brosesau ar gyfer ymateb i adborth, pryderon a chwynion	Ymdrinnir ag adborth neu bryderon yn gadarnhaol ac mae polisïau a strategaethau ar waith i ymdrin â materion wrth iddynt godi	Ymdrinnir ag adborth a phryderon yn effeithiol ac fe'u dadansoddir i nodi'r hyn y mae angen ei wella ac i gymryd camau ataliol	Mae gweithdrefnau adborth a chwyno effeithiol yn gwella dysgu a chydberthnasau ar lefel y dosbarth, y cwricwlwm, yr ysgol a'r gymuned	4.9 4.13
	Adborth asesu	Rhennir canlyniadau o asesiadau â rhieni/gofalwyr	Rhoddir adborth o asesiadau yn rheolaidd i ddisgyblion a rhieni/gofalwyr a hynny mewn amgylchedd cefnogol	Mae rhieni/gofalwyr a disgyblion (lle y bo'n briodol) yn chwarae rhan lawn yn y broses asesu ac mae hyn yn llywio dysgu yn y dyfodol	Mae rhieni/gofalwyr a disgyblion (lle y bo'n briodol) yn chwarae rhan lawn yn y prosesau asesu a gosod targedau ac maent yn gwneud hynny'n hyderus	2.11
	Cyflwyno adroddiadau	Bodlonir gofynion adrodd statudol	Rhoddir gwybod i randdeiliaid am amrywiaeth o ganlyniadau	Mae rhanddeiliaid yn trafod perfformiad yn erbyn nifer o ddangosyddion	Mae rhanddeiliaid yn deall amrywiaeth o ddata priodol a'i oblygiadau o ran dysgu disgyblion neu reoli'r ysgol	2.10
		Nodiadau				

Cysylltiadau â Fframwaith Arolygu Cyffredin Estyn

Yn Seiliedig ar Dystiolaeth	Targedau Uchelgeisiol	Prosesau Tryloyw
2.8 Cynllunio i ddiwallu anghenion unigol disgyblion yn hyblyg a monitro ac adolygu eu cynnydd 2.9 Asesu cyflawniadau a chynnydd disgyblion yn deg, yn gywir ac yn rheolaidd 5.5 Rheoli a gwella perfformiad aelodau unigol o staff, timau ac adrannau 6.1 Mae'n gwybod am berfformiad y meysydd y mae'n gyfrifol amdanynt ac mae'n defnyddio'r wybodaeth yn effeithiol 6.7 Gall ddangos bod y camau a gymerwyd wedi arwain at welliannau mesuradwy	1.2 Cyflawni targedau a nodau dysgu y cytunwyd arnynt 2.11 Sicrhau bod disgyblion yn deall diben gwaith asesu ac yn cyfrannu at gynllunio eu cynnydd a'u gwelliant eu hunain 5.6 Cynnal arfarniadau neu adolygiadau effeithiol o staff i hyrwyddo eu datblygiad proffesiynol a gwella ansawdd y ddarpariaeth 6.5 Pennu blaenoriaethau a chamau gweithredu clir i sicrhau gwelliannau	2.10 Bodloni gofynion statudol ar gyfer cofnodi ac achredu cyflawniadau disgyblion 2.11 Sicrhau bod disgyblion yn deall diben gwaith asesu ac yn cyfrannu at gynllunio eu cynnydd a'u gwelliant eu hunain 4.9 meddu ar weithdrefnau effeithiol ar gyfer amddiffyn plant a phobl ifanc ac ar gyfer ymdrin ag apeliadau a chwynion 4.13 cynorthwyo a chynghori disgyblion yn briodol gan ystyried eu cefndir cymdeithasol, addysgol, ethnig neu ieithyddol 6.2 sefydlu trefniadau hunanwerthuso sy'n gynhwysfawr, yn systematig ac yn seiliedig ar dystiolaeth uniongyrchol 6.3 ceisio ac ystyried barn disgyblion, staff a phartïon eraill â diddordeb 7.4 defnyddio'r adnoddau sydd ar gael yn ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol

PROFFIL EFFEITHIOLRWYDD YSGOLION
CWRICWLWM AC ADDYSGU – YSGOL

Diben Cenedlaethol – Cynnig cwricwlwm i blant a phobl ifanc sy'n ennyn eu diddordeb ac yn eu cymell i ddysgu a gwireddu eu potensial

Mae'n cyfrannu at gyflawni'r diben cenedlaethol drwy: "… galluogi plant a phobl ifanc i feithrin sgiliau, gwybodaeth a'r ddealltwriaeth sydd eu hangen i wireddu eu potensial llawn"

		Disgwyliedig	Datblygu	Cryfhau	Trawsnewid	Estyn
	Cymhelliant disgyblion	Mae ymarferwyr yn gwybod ac yn deall yr hyn sy'n cymell disgyblion i ddysgu a phwysigrwydd profiad a dyheadau disgyblion	Mae ymarferwyr yn hyrwyddo datblygiad a dilyniant pob disgybl drwy gydnabod a gwerthfawrogi cymhelliant, profiad a dyheadau unigol ac ymateb iddynt	Gall ymarferwyr ddefnyddio'n hyderus ddulliau i hyrwyddo datblygiad a dilyniant pob disgybl drwy gydnabod a gwerthfawrogi cymhelliant, profiad a dyheadau unigol ac ymateb iddynt	Mae ymarferwyr yn cydweithio ag eraill – gan gynnwys y disgyblion eu hunain - i hyrwyddo datblygiad a dilyniant pob disgybl drwy gydnabod a gwerthfawrogi cymhelliant, profiad a dyheadau unigol ac ymateb iddynt	2.1 2.2
	Amgylchedd dysgu	Mae ymarferwyr yn gwybod ac yn deall ffyrdd o greu amgylchedd dysgu effeithiol	Mae'r rhan fwyaf o ymarferwyr yn creu amgylchedd dysgu effeithiol sy'n galluogi disgyblion i ystyried a gwerthuso eu dysgu a gwneud penderfyniadau yn ei gylch	Mae pob ymarferwr yn creu amgylchedd dysgu effeithiol sy'n galluogi disgyblion i ystyried a gwerthuso eu dysgu a gwneud penderfyniadau yn ei gylch	Mae pob ymarferwr yn cyfrannu at amgylchedd dysgu effeithiol sy'n cwmpasu'r ysgol gyfan ac sy'n ymestyn y tu hwnt i ystafelloedd dosbarth	2.5 3.4
	Creadigrwydd	Mae'r cwricwlwm yn cynllunio ar gyfer datblygu sgiliau creadigol disgyblion	Mae'r cwricwlwm yn canolbwyntio ar greadigrwydd sy'n defnyddio sgiliau disgyblion i weithio tuag at ganlyniadau sy'n greadigol eu natur	Mae'r cwricwlwm yn rhoi lle canolog i greadigrwydd ac yn datblygu sgiliau sy'n cynllunio ar gyfer anghenion yn awr ac yn y dyfodol. Mae'r cwricwlwm yn hyblyg ac mae'n annog arloesi a chymryd risgiau	Mae'r cwricwlwm yn cydnabod ac yn mynd ati i gwmpasu cyd-destun a diddordebau disgyblion, gan adeiladu ar y rhain i sicrhau bod disgyblion yn mabwysiadu ymagwedd hyblyg a chreadigol at waith a chwarae. Mae'r disgyblion yn arloesi ac yn cymryd risgiau am eu bod yn deall y gallant ddysgu o lwyddiant a methiant	3.2
	Nodiadau					

PROFFIL EFFEITHIOLRWYDD YSGOLION
CWRICWLWM AC ADDYSGU – YSGOL

Mae'n cyfrannu at gyflawni'r diben cenedlaethol drwy: "… ymarferwyr yn cael gafael ar wybodaeth broffesiynol am y modd y mae plant a phobl ifanc yn dysgu ac yn meithrin sgiliau a goblygiadau hyn ar gyfer addysgu a dysgu"

		Disgwyliedig	Datblygu	Cryfhau	Trawsnewid	Estyn
Addysgeg sy'n Ennyn Diddordeb	**Arfer sy'n seiliedig ar ddamcaniaeth**	Mae ymarferwyr yn gwybod ac yn deall yr egwyddorion, y fframweithiau a'r damcaniaethau sydd wrth wraidd arfer da mewn dysgu ac addysgu	Mae'r rhan fwyaf o ymarferwyr yn defnyddio damcaniaethau dysgu perthnasol i ategu'r broses o ddatblygu arfer mewn dysgu ac addysgu	Gall pob ymarferwr ddefnyddio damcaniaethau dysgu yn hyderus i ategu'r broses o ddatblygu arfer mewn dysgu ac addysgu	Mae pob ymarferwr yn cydweithredu i addasu a mireinio damcaniaethau dysgu perthnasol i ategu'r broses o ddatblygu arfer mewn dysgu ac addysgu yng nghyd-destun ei ysgol ei hun	2.4
	Effaith arfer	Mae ymarferwyr yn gwybod ac yn deall effaith eu harfer eu hunain ar unigolion a'u dysgu	Mae'r rhan fwyaf o ymarferwyr yn gwybod ac yn deall effaith eu harfer eu hunain ar unigolion a'u dysgu ac yn ei addasu yn unol â hynny	Mae pob ymarferwr yn gwybod ac yn deall effaith ei arfer ar unigolion a'u dysgu ac yn ei addasu yn unol â hynny	Mae pob ymarferwr yn ystyried ei arfer ei hun ac yn dangos ymrwymiad i'w wella drwy ddysgu cydweithredol a gwerthusiadau rheolaidd gan gynnwys ceisio barn disgyblion	2.5
	Gwybodaeth am bwnc	Dengys athrawon fod ganddynt wybodaeth dda am eu pwnc a'u bod yn gyfarwydd â datblygiadau diweddar yn eu maes.	Mae gan y rhan fwyaf o athrawon wybodaeth a dealltwriaeth fanwl o'r cwricwlwm a datblygiadau diweddar sy'n gysylltiedig ag ef	Mae gan bob athro wybodaeth a dealltwriaeth fanwl o'r cwricwlwm. Mae'n ofalus wrth ddewis unrhyw ddatblygiadau diweddar i'w defnyddio ac yn eu gwerthuso'n drylwyr wrth eu defnyddio	Mae pob athro yn defnyddio ei wybodaeth o'r cwricwlwm i gydweithredu a chynllunio ar gyfer gwersi diddorol a chreadigol ar draws yr ysgol. Mae'n rhannu canlyniadau gwerthusiadau o ddatblygiadau diweddar y mae wedi'u rhoi ar waith yn ymarferol. Lledaenir arfer da a dysgir o ddatblygiadau aneffeithiol.	2.3
	DPP	Mae'r ysgol yn ymrwymedig i ddatblygiad proffesiynol parhaus ymarferwyr.	Mae datblygiad proffesiynol parhaus yn chwarae rôl gynyddol wrth alluogi ymarferwyr i ddysgu am strategaethau addysgu a dysgu effeithiol.	Mae'r ysgol yn defnyddio ymarferwyr allweddol a gweithwyr proffesiynol blaenllaw eraill i hyrwyddo datblygiad proffesiynol parhaus yn aml o'i hystafelloedd dosbarth neu ei hadrannau ei hun neu o ystafelloedd dosbarth ac adrannau ysgolion eraill	Mae'r ysgol yn ymgymryd â rhaglenni datblygiad proffesiynol parhaus a gweithgarwch rhwydweithio proffesiynol o safon uchel sy'n canolbwyntio ar wella canlyniadau a lles disgyblion	5.6
	Nodiadau					

PROFFIL EFFEITHIOLRWYDD YSGOLION
CWRICWLWM AC ADDYSGU – YSGOL

Mae'n cyfrannu at gyflawni'r diben cenedlaethol drwy: "… creu disgwyliadau uchel i wneud ymarferwyr yn fwy effeithiol"

		Disgwyliedig	Datblygu	Cryfhau	Trawsnewid	Estyn
Disgwyliadau Uchel	**Arloesi**	Mae gan ymarferwyr wybodaeth a sgiliau sy'n diwallu anghenion disgyblion. Maent yn darparu model rôl o ran eu hagweddau, eu hymddygiad a'u dysgu. Mae ymarferwyr yn ymwybodol o ddiddordebau disgyblion.	Mae'r rhan fwyaf o ymarferwyr yn defnyddio cyfleoedd datblygu proffesiynol parhaus i fyfyrio ar eu gwybodaeth a'u sgiliau ac ystyried sut y gellir defnyddio gwybodaeth a sgiliau newydd i ddiwallu diddordebau ac anghenion disgyblion yn well	Mae pob ymarferwr yn dechrau troi gwybodaeth a sgiliau newydd yn ddulliau gweithredu mwy arloesol lle y cymerir mwy o risgiau ac yn sylweddoli sut y mae eu cyfleoedd dysgu proffesiynol eu hunain yn helpu i hwyluso'r broses hon.	Mae pob ymarferwr yn arloesi ac yn cymryd risgiau wrth ddatblygu ei sgiliau a'i wybodaeth. Mae'r ymarferwyr yn ddisgyblion gweithredol eu hunain. Maent yn defnyddio profiadau a diddordebau disgyblion i wella eu haddysgu a datblygu dulliau addysgu newydd. Mae eu haddysgu yn bendant wedi'i osod yng nghyd-destun diddordebau a phrofiadau'r disgyblion.	2.1
	Disgwyliadau eglur	Mae ymarferwyr yn disgwyl i'r disgyblion wneud yn dda. Maent yn glir ynghylch yr ymddygiad a'r agweddau y maent yn eu disgwyl gan ddisgyblion.	Mae'r rhan fwyaf o ymarferwyr wedi datblygu strategaethau a dulliau gweithredu i sicrhau bod disgyblion yn gwneud yn dda. Maent yn ymgysylltu â disgyblion i drafod safonau gwaith, ymddygiad ac agweddau priodol a chytuno arnynt	Mae pob ymarferwr yn ymgorffori strategaethau a dulliau gweithredu y bwriedir iddynt sicrhau perfformiad uchel gan bob disgybl. Mae ymddygiad ac agweddau disgyblion yn cyfrannu at safonau uchel. Mae disgyblion ac ymarferwyr yn cydnabod pwysigrwydd perfformiad uchel y tu hwnt i sgorau cyrhaeddiad cyfyng.	Mae pob ymarferwr yn disgwyl y perfformiad uchaf gan bob disgybl. Mae'r disgyblion yn llawn diddordeb ac yn uchel eu cymhelliant ac mae eu hymddygiad a'u hagweddau yn gyson briodol. Mae gan ymarferwyr a disgyblion ddyheadau uchel, cyffredin ar gyfer eu perfformiad y tu hwnt i sgorau cyrhaeddiad cyfyng.	1.11 1.12
	Ffocws y cwricwlwm	Mae'r cwricwlwm yn cydymffurfio â blaenoriaethau cenedlaethol, mae'n eang ac yn gytbwys	Adolygir y cwricwlwm a phan fo angen fe'i haddasir i ddiwallu blaenoriaethau cenedlaethol ac anghenion disgyblion. Mae disgwyliadau uchel wedi'u hymgorffori ac mae terfynau wedi'u dileu.	Mae'r cwricwlwm yn cwmpasu'r gwaith o gysoni anghenion disgyblion, anghenion yr ysgol ac anghenion cenedlaethol. Mae'n adeiladu ar enghreifftiau o arfer arloesol, effeithiol a ddatblygwyd o bynciau neu gyfnodau eraill. Mae'n cydnabod cyd-destun bywydau disgyblion y tu allan i'r ysgol.	Mae'r cwricwlwm yn canolbwyntio ar anghenion disgyblion a nodwyd ac mae wedi'i addasu i'w diwallu. Fe'i cyflwynir mewn ffyrdd arloesol drwy amrywiaeth o gyfryngau. Mae ganddo gyd-destun sy'n berthnasol i fywydau disgyblion.	3.7 3.14
	Nodiadau					

PROFFIL EFFEITHIOLRWYDD YSGOLION
CWRICWLWM AC ADDYSGU – YSGOL

Cysylltiadau â Fframwaith Arolygu Cyffredin Estyn

Canlyniadau	Addysgeg sy'n Ennyn Diddordeb	Disgwyliadau Uchel
1.1 cyrraedd safonau da o ran eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u sgiliau 1.2 cyflawni targedau a nodau dysgu y cytunwyd arnynt 1.8 deall beth maent yn ei wneud, faint o gynnydd y maent wedi'i wneud a'r hyn y mae angen iddynt ei wneud i wella 2.1 ysgogi a herio disgyblion i sicrhau rhagoriaeth 2.2 sefydlu cydberthnasau gwaith da sy'n meithrin dysgu 2.5 defnyddio amrywiaeth o ddulliau ac adnoddau addysgu a hyfforddi sy'n sicrhau cyfranogiad gweithredol disgyblion 3.2 darparu cydbwysedd, ehangder, hyblygrwydd, cydlyniant a dilyniant 3.3 datblygu sgiliau sylfaenol ac allweddol disgyblion 3.4 ehangu a chyfoethogi profiad disgyblion, drwy amrywiaeth o weithgareddau, gan gynnwys darpariaeth y tu allan i oriau'r ysgol ac oddi ar y safle	2.3 dangos gwybodaeth dda am ei bwnc a gwybodaeth am ddatblygiadau diweddar yn ei faes 2.4 cynllunio'n effeithiol a meddu ar amcanion clir ar gyfer sesiynau a addysgir a phrofiadau dysgu eraill y mae'r disgyblion yn eu deall 2.5 defnyddio amrywiaeth o ddulliau ac adnoddau addysgu a hyfforddi sy'n sicrhau cyfranogiad gweithredol disgyblion 5.6 cynnal arfarniadau neu adolygiadau effeithiol o staff i hyrwyddo eu datblygiad proffesiynol a gwella ansawdd y ddarpariaeth	1.11 ymddwyn yn gyfrifol a dangos parch at eraill 1.12 sicrhau lefelau uchel o bresenoldeb a phrydlondeb 2.1 ysgogi a herio disgyblion i sicrhau rhagoriaeth 3.7 bodloni gofynion cyfreithiol a gofynion y cwrs 3.14 adlewyrchu blaenoriaethau cenedlaethol ar gyfer dysgu gydol oes ac adfywio cymunedol